**Ymchwiliad gwaddol gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

- *Beth y gellir ei ddysgu o brofiad y Pwyllgor a'i waith craffu ar y portffolio cyn y Chweched Senedd?*
- *Beth fu cryfderau a gwendidau cylch gwaith y Pwyllgor, gan gynnwys a alluogodd y Pwyllgor i weithio'n effeithiol?*
- *A oes gennych chi a'ch sefydliad farn am ffyrdd y Pwyllgor o weithio? A oes unrhyw ffyrdd newydd o weithio y gellid eu mabwysiadu yn y dyfodol? Efallai yr hoffech ystyried ei ddull ar gyfer casglu tystiolaeth, craffu ar Lywodraeth Cymru, a ffyrdd rhithwir newydd o weithio.*

Fel mudiad ieuenctid cenedlaethol, fe ofynnwyd i ni ddarparu tystiolaeth i'r ymchwiliad a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2020. Dyma'r tro cyntaf i ni gyfrannu'n weithredol i waith y pwyllgor. Cafodd fformat (digidol) yr ymchwiliad, ei groesawi gan y gwirfoddolwyr rydym yn gweithio gydag. Yn y gorffennol rydym wedi eu cael yn anodd darparu tystiolaeth i bwyllgorau eraill oherwydd amseriad y cyfarfodydd yma, a'r angen i'n gwirfoddolwyr deithio i Gaerdydd.

Yn ychwanegol, roedd y cyfle gwnaethom dderbyn i ddarparu tystiolaeth yn ddigidol, wedi caniatáu inni ddysgu mwy am waith mudiadau eraill. Yr oedd yn gynorthwyol deall mwy am y gwaith maent yn ymgymryd â, yn ogystal â gwerthfawrogi'r sialensiau maent yn wynebu.

Byddem yn croesawi'r cyfle i ddatblygu ein hymgysylltiad gyda'r pwyllgor ymhellach; a byddai gennym ddiddordeb wybod a byddai ymgysylltiad gydag ystod ehangach o bobl ifanc o fewn ein mudiad ar wahanol bynciau yn y dyfodol o ddiddordeb i chi? Medru'r ddatblygu hyn drwy ddefnyddio gwahanol dechnoleg, e.e. Vlogs, a bydd yn dwyn ynghyd barn gwahanol grwpiau o bobl ifanc; neu efallai medru'r hybu sgyrsiau dros y we, oherwydd bod rhai pobl ifanc yn teimlo'n fwy cysurus eu defnyddio.

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymgysylltu gyda'r pwyllgor, a gobeithiwn fod yna gyfle i ni ddatblygu ein partneriaeth gyda'r pwyllgor ymhellach yn ystod y Chweched Senedd.